

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr
USK on Dydd Mercher, 3ydd Rhagfyr, 2025 at 10.00 am

Councillors Present

Cynghorydd Sir Alistair Neill, (Cadeirydd)
Cynghorydd Sir Rachel Buckler, (Is-Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir: John Crook, Meirion Howells,
Martin Newell, Paul Pavia, Peter Strong.

C. Werrett

Also in attendance County Councillors: Paul
Griffiths, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros
Gynllunio a Datblygu Economaidd and Catrin Maby,
Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Craffu
Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Graham Kinsella, TRaffic and Road Safety Manager
Sueanne Sandford, Highway Asset Street Works
Team Manager
Carl Touhig, Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth
James Woodcock, Rheolwr Deall Busnes
Christopher Mitchell, MCC Group Engineer

APOLOGIES: Cynghorwyr Sir: Steven Garratt and Jill Bond

1. Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

2. Diweddariad ar Gynllun Gweithredu Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau

Cyflwynodd Hannah Jones, James Woodcock a'r Aelod Cabinet Paul Griffiths yr adroddiad gan ateb
cwestiynau'r Aelodau gyda Will McLean:

*Sut gellir disgrifio economi Sir Fynwy fel un sy'n "gweithio i'w gallu llawn" tra hefyd yn awgrymu y gallai
fod yn "fwy bywiog"?*

Mae "gallu llawn" yn cyfeirio at lefelau cyflogaeth uchel, meddiannaeth fusnes gref (yn enwedig mewn
mannau diwydiannol), a gweithlu cymwys iawn. Fodd bynnag, byddai cyflawni mwy o fywiogrwydd yn
gofyn am bobl ychwanegol a mwy o le diwydiannol i gefnogi twf pellach.

*Beth sydd y tu ôl i'r cynnydd ymhlith y sawl na sydd mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs)? A
oedd yn rhagweladwy, oherwydd mwy o blant ag anghenion cymhleth, neu a oedd yn annisgwyl?*

Mae'r cynnydd wedi digwydd am sawl rheswm. Mae'n adlewyrchu cymhlethdod cynyddol anghenion,
effaith COVID-19 ar addysg uwchradd, a heriau mewn darpariaeth ôl-16 - yn enwedig o amgylch
cymwysterau Lefel 2 a thrafnidiaeth yn Nhrefynwy. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ehangu opsiynau ôl-
16 a gwella offer adnabod cynnar. Mae data diweddar yn dangos gostyngiad yn y niferoedd sy'n NEET,
gyda ffigurau terfynol yn dal i fod yn yr arfaeth.

*Nodwyd, er bod y gyfradd ddiweithdra yn isel (2.8%), bod tua 20% o boblogaeth oedran gweithio Sir
Fynwy yn economaidd anweithredol, sydd ond ychydig yn is na chyfartaledd y DU. Mae'n bwysig peidio
ag anwybyddu'r grŵp hwn, gan nad yw un o bob pump oedolyn 16-64 oed yn gweithio er gwaethaf y
gallu. A ddylai'r Cyngor ystyried sut i'w cefnogi a'u cynnwys?*

Mae ymdrechion parhaus i gefnogi carfannau economaidd anweithredol i mewn i waith, gyda rhaglenni
newydd fel Cysylltu â Gwaith gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, a'r angen am gefnogaeth bwrpasol.
Mae 29.4% o'r rhai anweithredol yn fyfyrwyr (yn uwch na chyfartaledd Cymru), mae 18% yn sâl

hirdymor (yn is na chyfartaleddau Cymru/Prydain Fawr), ac mae 25% wedi ymddeol (bron ddwywaith y gyfradd mewn mannau eraill), sy'n dangos bod myfyrwyr a'r sawl sydd wedi ymddeol yn ffurfio cyfran sylweddol o'r grŵp anweithgar.

Pam mae niferoedd busnesau wedi gostwng o 4,575 i 4,445, ac a yw'r Cyngor wedi gwerthuso cynaliadwyedd hirdymor cymorth busnes ar ôl i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF) ddod i ben? Pa raglenni sy'n dibynnu ar GFFG, a beth yw'r cynlluniau ar gyfer eu cynnal ar ôl Mawrth 2026?

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid mewnol a rhanbarthol i ddeall y newid o GFFG i'r Gronfa Twf Lleol newydd, sydd ar hyn o bryd dan ymgynghoriad. Nid oes unrhyw ddarlleniad uniongyrchol, ac efallai y bydd angen aillfocysu rhai prosiectau. Mae asesiad effaith o waith a gefnogir gan GFFG ar y gweill a chaiff ei rannu gyda'r pwyllgor.

Beth sy'n cael ei wneud i wella band eang gwledig hynod anghyson, sy'n parhau i fod yn rhwystyr hollbwysig i fusnesau?

*Bydd y swyddogion yn ystyried y cwestiwn hwn i ffwrdd ac yn darparu ymateb ysgrifenedig, gan nad yw'n uniongyrchol o fewn eu cylch gwaith. – **CAM GWEITHREDU***

Beth yw effaith y rheol 180 diwrnod ar gynnal busnesau twristiaeth yn Sir Fynwy?

Mae prosiect ymchwil ar y gweill i asesu effaith y rheol 180 diwrnod, a fydd yn llywio ymdrechion lobiö gyda Llywodraeth Cymru, ond bydd y cwestiwn yn cael ei gyfeirio at gydweithwyr twristiaeth am ymateb ysgrifenedig mwy llawn. – **CAM GWEITHREDU**

Pa ymyriadau allai leihau'r cynnydd yn nifer yr hawlwywr Credyd Cynhwysol rhwng 18 a 24 oed (o 441 i 729), a pha gyfran sy'n crybwyll rhwystrau trafndiaeth?

Mae cynllun peilot gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cynnig rhaglen 12 wythnos i hawlwywr Credyd Cynhwysol ifanc, gan ganolbwyntio ar rwystrau fel hyder, sgiliau ac iechyd. Mae ymgysylltiad cyflogwyr yn rhan o'r gefnogaeth. Cyfeirir at drafndiaeth yn aml fel rhwystr, a chynhelir grwpiau mewn gwahanol leoliadau i fynd i'r afael â hyn.

Sut gellir cryfhau'r rhaglen Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) mewn ysgolion, a sut gellir annog cyflogwyr i gymryd rhan?

Mae'r rhaglen STEM yn ei chamau cynnar, gyda dysgu proffesiynol i staff, arweinwyr clwstwr ar gyfer cynaliadwyedd, ac ymgysylltiad gweithredol â chyflogwyr a phartneriaid yn y sector preifat i wneud y rhaglen yn hunangynhaliol.

Pa ffactorau sydd wedi cyfrannu at y dirywiad diweddar yn nifer y mentrau gweithredol yn Sir Fynwy, ac a oes unrhyw rai wedi'u nodi a allai helpu i wrthdroi'r duedd?

Mae'n anodd priodoli'r dirywiad i unrhyw ffactor sengl. Mae niferoedd busnesau wedi amrywio dros amser, gan godi cyn COVID a chynyddu eto ar ôl y pandemig. Cynhelir dadansoddiad pellach i nodi unrhyw achosion penodol.

Pa fesurau wedi'u targedu sydd wedi'u cynllunio i leihau'r anghydraddoldeb enillion sylweddol rhwng gweithwyr gwrywaidd a benywaidd?

Mae gwaith archwiliadol ar y gweill, gan gynnwys digwyddiadau menywod mewn busnesau a thrafodaethau gyda chyflogwyr ynghylch gweithio hyblyg. Mae polisiâu'r Cyngor ei hun hefyd yn anelu at fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

A oes unrhyw brinder sgiliau wedi'u nodi yn Sir Fynwy, a beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys cynlluniau gwella yn y dyfodol?

Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â busnesau lleol mawr i nodi bylchau sgiliau, sy'n amrywio yn ôl sector ond yn aml yn cynnwys sgiliau technegol, meddalwedd, cyfathrebu a digidol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu'r wybodaeth hon, ac mae cynllunio olyniaeth yn fater nodedig. Nod y Cyngor yw datblygu'r asesiad hwn ymhellach dros y flwyddyn nesaf.

A yw'r nifer uwch o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs) yn Sir Fynwy yn gysylltiedig â phroblemau trafndiaeth gyhoeddus, a beth ellir ei wneud i helpu o ystyried opsiynau trafndiaeth cyfyngedig Sir Fynwy?

Mae rhwystrau trafndiaeth, fel gwasanaethau bysiau cyfyngedig i Henffordd a Chasnewydd, yn rhoi baich ar bobl ifanc a gallant arwain at ymddieithrio os collir trafndiaeth. Gwelir ehangu darpariaeth ôl-

16 o fewn ysgolion lleol, yn enwedig ar Lefel 2 a Lefel galwedigaethol 3, fel ffordd o helpu i gadw myfyrwyr a lleihau dibyniaeth ar ddarparwyr addysg bellach allanol.

Sut gellir hyrwyddo addysg yn y gweithle (e.e., NVQ hyd at Lefel 7) fel dewis arall yn lle prifysgol?

Cydnabu'r swyddogion bwysigrwydd addysg yn y gweithle a chytunasant ar yr angen i ehangu opsiynau cwrs mewn ysgolion lleol i leihau rhwystrau trafndiaeth a chefnogi dyheadau pobl ifanc.

Sut mae llywodraethu a monitro strategaeth yr Economi, Cyflogaeth a Sgiliau (EES) yn cael ei reoli nawr bod y ddarpariaeth wedi'i dosbarthu ar draws nifer o strategaethau eraill, ac a oes cynllun ar gyfer un dangosfwrdd neu gerdyn sgôr gyda dangosyddion perfformiad allweddol, llinellau sylfaen, targedau, a statws RAG?

Mae taenlen gynhwysfawr sy'n olrhain rhyngddibyniaethau ar hyn o bryd, ac mae'r tîm yn agored i ddatblygu asesiad RAG ar gyfer adrodd yn y dyfodol. Mae cytundeb ar bwysigrwydd adolygu dangosyddion, a bydd yr ymarfer hwn yn cael ei gynnal.

Pa dystiolaeth bendant sy'n dangos y manteision a'r gwerth a ddarperir i Sir Fynwy o'i chyfraniadau ariannol i Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC), ac a oes unrhyw ddadansoddiad manwl wedi'i wneud?

Darperir adroddiadau rheolaidd ar weithgareddau PRC i'r Cyngor llawn, a bydd adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth fesuradwy. Mae enghreifftiau o effaith PRC yn cynnwys buddsoddiadau mewn lled-ddargludyddion cyfansawdd a chefnogaeth i gwmnïau technoleg feddygol, er bod adrodd mwy manwl yn cael ei gydnabod fel angenrheidiol. – **CAM GWEITHREDU: yr Aelod Cabinet i gysylltu â'r Arweinydd ynghylch cynnwys manteision meintiol yn yr adroddiad chwarterol i'r cyngor**

Crynodeb y Cadeirydd:

Daeth y Cadeirydd i'r casgliad, er gwaethaf y gyfradd ddiweithdra isel, na ddylai'r Cyngor fod yn hunanfodlon a dylai barhau i archwilio ffyrdd o ychwanegu gwerth a mynd i'r afael ag anghenion y rhai sy'n economaidd anweithgar. Pwysleisiodd yr angen am wiriad realiti wrth gymharu cystadleurwydd economaidd Sir Fynwy, gan nodi, er ei bod yn ail yng Nghymru, ei bod yn 79fed o 152 yn y DU a'r DU ei hun yn 30fed o 38 o wledydd OECD, gan annog y Cyngor i ganolbwyntio ar godi ei gêm yn hytrach na dim ond perfformio'n well na chyfoedion lleol. Tynnodd y Cadeirydd sylw at effaith economaidd sylweddol twristiaeth (£352 miliwn yn 2024) a chwestiynodd beth sy'n cael ei wneud i gefnogi'r sector hwn o ystyried yr heriau presennol. Croesawyd datblygiad Cynlluniau Creu Lleoedd gan yr Aelodau fel ffordd gadarnhaol o ymgysylltu â thrigolion lleol a mynd i'r afael ag anghenion lleol. Mynegodd y Cadeirydd bryder nad yw'r adroddiad o bosibl yn adlewyrchu'n llawn yr heriau y mae busnesau'n eu hwynebu, yn enwedig mewn strydoedd mawr a lletygarwch, ac awgrymodd y dylid ystyried hyn cyn i'r adroddiad fynd i'r Cabinet. Ar fater unrhyw gaffael aflwyddiannus PRC, awgrymodd y Cadeirydd y dylid mynd i'r afael â materion o'r fath yn adroddiadau'r Cyngor yn y dyfodol er mwyn sicrhau tryloywder a hyder. Diolchodd i'r swyddogion a'r Aelod Cabinet am eu hymatebion, a chymeradwywyd yr adroddiad.

3. Tyllau mewn Ffyrdd a Chyflwr Ffyrdd

Rhoddodd Carl Touhig gyflwyniad ac atebodd gwestiynau'r Aelodau gyda Christopher Mitchell, Sueanne Sandford, yr Aelod Cabinet Catrin Maby, a Graham Kinsella:

Pam nad oes cynllun prosiect ar gyfer gwaith ffordd mawr, ac a allai gweledded y gwahanol gamau helpu i reoli disgwyliadau a gwella cyfathrebu â thrigolion a busnesau?

Gall cyhoeddi rhaglen waith fanwl greu disgwyliadau afrealistig oherwydd bod cynlluniau'n aml yn newid oherwydd ffactorau fel gwiriadau ecoleg neu ddifrod stormydd. Fodd bynnag, mae ymrwymiad i wella cyfathrebu trwy rannu cynlluniau sydd ar gael ar gyfer gwaith mawr ac ymgysylltu â chymunedau yn gynharach, gan egluro y gall newidiadau ddigwydd.

Pwy sy'n gyfrifol am yr A40 yn Nhrefynwy, yn enwedig pan fydd goleuadau traffig yn methu, a sut y dylid ymdrin â digwyddiadau o'r fath?

SWTRA sy'n gyfrifol am yr A40, ond gall rhai goleuadau traffig ddod o dan rwydwaith Cyngor Sir Fynwy. Byddai'r ddau dîm yn ymateb i ddigwyddiadau, a dylai'r heddlu fod y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer diogelwch ar unwaith. Gellir cynnal ymchwiliad pellach os darperir manylion penodol.

A oes dewisiadau amgen i atgyweiriadau tyllau ffordd dros dro a allai ddarparu atebion mwy parhaol ac arbed arian yn y tymor hir?

Defnyddir atgyweiriadau dros dro er diogelwch uniongyrchol ac maent yn gost-effeithiol, ond mae'r tîm hefyd yn ymgymryd ag atgyweiriadau clytio ac atgyweiriadau parhaol pan fo'n bosibl. Dewisir deunyddiau ar gyfer gosod cyflym a'r aflonyddwch lleiaf posibl, a defnyddir arbenigedd peirianeg i ymgorffori atgyweiriadau parhaol mewn rhaglenni cynnal a chadw ehangach.

Beth sy'n gymwys fel twll yn y ffordd, ac a allai mynd i'r afael â diffygion llai yn gynharach helpu i atal problemau mwy?

Categorioidir tyllau yn y ffordd a diffygion yn seiliedig ar hierarchaeth ffyrdd a maint y diffyg. Mae'r brys a'r ymateb yn dibynnu ar leoliad a difrifoldeb, gyda blaenoriaeth uwch yn cael ei rhoi i ddiffygion ar briffyrdd neu mewn traciau olwynion.

A oes cynllun gwaith blynyddol ar gyfer clirio draeniai, o ystyried y gall draeniai wedi'u blocio waethygu tyllau yn y ffordd, yn enwedig yn y gaeaf?

Mae draenio'n cael ei drin yn waith adweithiol oherwydd cyfyngiadau adnoddau, heb unrhyw waith cynnal a chadw ataliol wedi'i amserlennu. Mae gyliau wedi'u blocio yn cael eu trin pan gânt eu hadrodd, a gall trigolion helpu trwy glirio sbwriel dail o bennau gyliau.

A yw'r gyllideb wedi'i rhannu'n gyfartal rhwng ffyrdd a phalmentydd, o ystyried hyd hir y ddau?

Nid yw'r gyllideb wedi'i rhannu'n gyfartal. Mae rhestr hir o waith palmant, ond mae cyllid wedi'i gapio. Mae dadansoddiad cyflwr palmentydd yn parhau, a defnyddir cyllid teithio llesol lle bo modd, yn enwedig mewn ardaloedd wedi'u targedu fel Cas-gwent.

Sut gellir datrys problemau gyda phriffyrdd heb eu mabwysiadu a thyllau archwilio agored, o ystyried yr anhawster o nodi perchnogaeth a sicrhau diogelwch?

Gellir ymchwilio i achosion penodol os darperir manylion. Mae'r dull yn cynnwys gweithio gyda thimau gorfodi a chyfreithiol i ddatrys perchnogaeth ac ymdrin â phryderon diogelwch. Mae'n bwysig defnyddio ap MyMon neu wasanaethau'r Cyngor i roi gwybod am broblemau, gan fod hyn yn helpu i flaenoriaethu ac olrhain atgyweiriadau.

A yw pwysau cynyddol cerbydau trydan (300-500 kg yn drymach na cherbydau hylosgi) yn cael ei fonitro am ei effaith ar gyflwr y ffyrdd, ac a oes unrhyw ymchwil ar hyn?

Mae'r mater yn cael ei gydnabod, ac mae monitro ar y gweill ar gyfer nodiadau technegol a methiannau, yn enwedig mewn cyffyrdd, wrth i'r sefyllfa esblygu. Bydd canfyddiadau perthnasol yn cael eu rhannu wrth iddynt ddod ar gael. Nodir hefyd fod rhai ffyrdd yn brin o sylfeini modern, sy'n effeithio ar waith cynnal a chadw.

A yw monitro a blaenoriaethu tyllau yn y ffordd yn ystyried risgiau i feicwyr, yn enwedig ar ffyrdd gwledig, ac a ddylid ystyried arwyddion neu fesurau eraill ar gyfer diogelwch beicwyr?

Cyfarwyddir arolygwyr i ystyried pob defnyddiwr ffordd, gan gynnwys beicwyr, wrth asesu diffygion. Rhoddir blaenoriaeth i atgyweiriadau ar lwybrau a ddefnyddir yn helaeth gan feicwyr neu ar gyfer teithio llesol. Er bod arwyddion yn cael eu defnyddio mewn rhai achosion, y dewis yw trwsio peryglon yn gyflym yn hytrach na dibynnu ar arwyddion.

Sut mae'r Cyngor yn cydbwyso pryderon trigolion ynghylch tyllau yn y ffordd a ffyrdd sydd wedi dirywio â chyllidebau cyfyngedig a blaenoriaethu gofal cymdeithasol, ac a yw'r cydbwysedd hwn yn cael ei gyfleu'n effeithiol?

Mae'r mater yn adlewyrchu cronïad hirdymor oherwydd cyllidebau cyhoeddus cyfyngedig a blaenoriaethu gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae Sir Fynwy yn wynebu heriau penodol fel sir wledig o fewn strwythur ariannu rhanbarthol, ochr yn ochr ag effaith newid hinsawdd a'r angen am fuddsoddiad sylweddol mewn seilwaith. Mae ymdrechion yn parhau i godi'r pryderon hyn gyda chyrrff rhanbarthol a chenedlaethol, a phwysleisir dealltwriaeth drawsbleidiol.

Pryd mae tyllau yn y ffordd sy'n digwydd dro ar ôl tro yn yr un lleoliad yn sbarduno atgyweiriad parhaol neu ymchwiliad pellach?

Pan fydd tyllau yn y ffordd yn cael eu hadrodd dro ar ôl tro drwy system swyddogol Fy Nghyngor Gwasanaethau, caiff y lleoliad ei nodi ar gyfer atgyweiriad mwy parhaol. Os bydd atgyweiriadau dros dro

a pharhaol yn methu, cynhelir ymchwiliad pellach i nodi problemau sylfaenol. Mae adrodd drwy'r system swyddogol yn hytrach na thrwy e-bost yn sicrhau bod y broses hon yn cael ei dilyn.

Sut mae ymwybyddiaeth y cyhoedd yn cael ei chodi am y newidiadau i Godau'r Ffordd Fawr sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr mewn cyffyrdd?

Mae'r canllawiau wedi newid i roi blaenoriaeth i gerddwyr mewn cyffyrdd, ond mae newid ymddygiad yn heriol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gyflwyno croesfannau sebra syml mewn cyffyrdd bach, y gellid eu gweithredu yn y dyfodol i atgyfnerthu blaenoriaeth i gerddwyr.

A allai fod adolygiad o sut mae lleoliadau problemus mynych ar ffyrdd gwledig llai—yn enwedig y rhai â draeniau, cwlffertiau a ffosydd wedi'u blocio—yn cael eu rheoli, o ystyried eu heffaith ar lifogydd a mynediad?

Dros y ddwy i dair blynedd diwethaf, mae timau wedi gwella camau gweithredu rhagataliol cyn glaw trwm trwy glirio cwlffertiau a phwyntiau draenio problemus hysbys. Cedwir rhestr o tua 100-120 o leoliadau o'r fath a gellir ei rhannu gyda chynghorwyr i helpu i flaenoriaethu. Mae rhai materion yn dod o dan gyfrifoldeb tirfeddianwyr (perchnogaeth glannau afon), ond mae'r Cyngor yn gweithio gyda nhw i ddatrys problemau lle bo modd. – **CAM GWEITHREDU: darparu'r rhestr**

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolchodd y Cadeirydd a'r Aelodau i'r swyddogion a oedd yn bresennol a'r tîm ehangach am eu gwaith rhagorol wrth ddelfio â'r llifogydd diweddar. Diolch i'r swyddogion ac Aelod y Cabinet am y cyflwyniad a'r ymatebion heddiw. – **CAM GWEITHREDU: darparu'r cyflwyniad i'r Aelodau**

4. BUSNES YCHWANEGOL: Adroddiad Perfformiad Blynnyddol Cynllunio

Unrhyw gwestiynau i'w hanfon drwy e-bost at swyddogion am ymateb dilynol.

5. BUSNES YCHWANEGOL: Diweddariad ar gynnydd ar y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol

Unrhyw gwestiynau i'w hanfon drwy e-bost at swyddogion am ymateb dilynol.

6. Cyfarfod nesaf: 27ain Ionawr 2026 (Cyfarfod Arbennig) am 2pm a 10fed Chwefror 2026 am 10am

Atgoffwyd yr Aelodau am y gwahoddiad sydd ar ddod i'r Pwyllgor Pobl ar 21ain Ionawr ar gyfer eitemau Addysg, a bod modd i Aelodau weld Blaengynllunydd y Cabinet a'r Cyngor unrhyw bryd drwy ddilyn y ddolen ar dudalen Gwasanaethau Democrataidd yr Hyb. Cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cadeiryddion Craffu y byddai cynigion y gyllideb ddrafft yn y flwyddyn newydd yn cael eu cyflwyno i Berfformiad a Throsolwg yn unig, ond gyda'r gwahoddiad i'w anfon at bob Aelod.

The meeting ended at **12.39 pm**